Gyrfa Cymru
Careers Wales

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bwletin Gwybodaeth am Y Farchnad Lafur Gyrfa Cymru: Tachwedd 2022

Rhifyn 11: Cyhoeddwyd Tachwedd 2022
Dyddiad y rhifyn nesaf: Mawrth 2023

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Cynnwys

1. Tueddiadau Economaidd Allweddol 4
2. Tueddiadau Hysbysebu Swyddi yng Nghymru 5
3. Tueddiadau Recriwtio Galwedigaethau 7
4. Diswyddiadau 14
5. Diweithdra ac Anweithgarwch Economaidd 17
6. Diweithdra ymysg Ieuenctid a Phobl Ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) 22
7. Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol 24
8. Cymorth, gwybodaeth ac ystadegau 25
9. Nodwedd: Y Diwydiant Adeiladu yng Nghymru 26

Bwletin LMI Gyrfa Cymru Tachwedd 2022

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Crynodeb

1.Tueddiadau Economaidd Allweddol

Cyfradd cyflogaeth y DU heb newid ar 75.5%

Gostyngodd Cyfradd Diweithdra'r DU i 3.6%

Mae niferoedd y Swyddi Gwag yn y DU yn dechrau gostwng

2.Hysbysebion Swyddi yng Nghymru

Cofnodir yr hysbysebion ar-lein fel 74,052 ar hyn o bryd ym mis Hydref 2022.



3. Tueddiadau Recriwtio Galwedigaethau

Y galwedigaethau gyda'r rhan fwyaf o hysbysebion swyddi ar-lein yng Nghymru yn y 30 diwrnod hyd at 11 Tachwedd:



4.Diswyddiadau

Does dim data ar gael ar gyfer diswyddiadau yng Nghymru am y 6 mis diwethaf; Mae cyfradd diswyddiadau yn y DU wedi cynyddu yn y chwarter diwethaf.



5.Diweithdra ac Anweithgarwch Economaidd

Roedd diweithdra yng Nghymru ym Medi 2022 yn 3.6%, sy'n uwch na chyfradd y DU. Mae anweithgarwch economaidd wedi gostwng yn ystod y 12 mis diwethaf.



6.Diweithdra Ymysg Pobl Ifanc a Phobl nad ydynt mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant (NEET)

Yng Nghymru, gostyngodd y rhai 16 i 18 oed sy'n NEET i 6,500 ym mis Mehefin 2022 a lefel y rhai 19 i 24 oed NEET oedd 35,200.



7. Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

8. Cymorth, gwybodaeth ac ystadegau

9. Erthygl: Adeiladu yng Nghymru



1. Tueddiadau Economaidd Allweddol

Y penawdau allweddol sy'n dominyddu tueddiadau a rhagolygon y farchnad lafur yng Nghymru ar hyn o bryd:

- **Mae lefelau cyflogaeth a swyddi gweigion yn uchel, tra bod lefelau diweithdra wedi bod yn gostwng ers hynny ac maent yn isel ar hyn o bryd**
- **Cyfradd Cyflogaeth – y DU 75.5% Cymru 72.3%; Cyfradd Diweithdra - y DU 3.6% Cymru 3.7% (Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Gorffennaf – Medi 22)**
- **Mae adroddiad diweddaraf ONS yn nodi mai nifer y swyddi gwag yn y DU rhwng Awst a Hydref 2022 oedd 1,225,000; gostyngiad o 46,000 rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2022**
- **Cyrhaeddodd niferoedd y swyddi ar-lein misol yng Nghymru 74,052 o hysbysebion swyddi unigryw ym mis Hydref 2022.**
- **Yn ôl ONS mae'r gymhareb o bobl ddi-waith i swyddi gweigion (1:1) wedi cyrraedd y lefel isaf erioed, gan amlygu materion recriwtio sy'n effeithio ar rai sectorau yn fwy nag eraill.**
- **Mae arwyddion bod lefelau'r swyddi gweigion yn dechrau gostwng a disgwylir i hyn barhau gyda thwf economaidd yn aros yn ei unfan**
- **Mae chwyddiant ar hyn o bryd yn uwch na thwf cyflog. Mae hyn yn arwain at wir werth cyflogau yn gostwng**
- **Dros y 3 mis diwethaf, gostyngodd nifer y gweithwyr, a chynyddodd nifer y gweithwyr hunangyflogedig**
- **Mae lefel y bobl sy'n cael eu categoreiddio'n economaidd anweithgar (gall hyn gynnwys myfyrwyr, salwch hirdymor, pobl sy'n gofalu am eu cartref neu deulu) yn codi**
- **Yn ôl y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (IES) mae 'bylchau' cyflogaeth yn ehangu ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn, sy'n gwrthdroi tueddiadau cyn-bandemig.**
- **Mae'r erthygl a atodir i'r rhifyn hwn o'r Bwletin LMI yn canolbwyntio ar y Diwydiant Adeiladu**

Rhybudd defnyddio data:

Ers ein cyhoeddiad diwethaf ym mis Mai 2022, mae Emsi Burning Glass wedi ail-frandio fel Lightcast™. Maent yn parhau i fod y cyflenwyr data ar gyfer sawl erthygl yn y Bwletin hwn, ac mae'r data sydd wedi'u cynnwys yn dilyn ymlaen o gyhoeddiad Mai 2022.

Mae angen i ni ddefnyddio data LMI yn ofalus, gweler Nodiadau Rhybuddiol ar ddiwedd y Bwletin.

2. Tueddiadau Hysbysebu Swyddi yng Nghymru

Mae amrywiadau misol mewn hysbysebion swyddi ar-lein yn parhau i roi syniad bras ond ymatebol i ni o'r farchnad swyddi yng Nghymru. Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r niferoedd absoliwt gan mai dim ond cipolwg o gyfanswm y darlun recriwtio y maent yn ei roi. Yn ôl eu natur, mae niferoedd yr hysbysebion yn amrywio'n ddyddiol ac mae dulliau casglu'n amrywio ond gallant roi syniad i ni o dueddiadau cyffredinol cyfleoedd swyddi yng Nghymru.

Tueddiadau recriwtio yng Nghymru

Nifer y swyddi misol ar-lein presennol yng Nghymru wedi'u postio yw'r uchaf a gofnodwyd yn ein Bwletinau LMI hyd yma.
Fel y dengys y graff a'r tabl cysylltiedig isod, mae swyddi ar-lein wedi cynyddu'n gyson dros y 18 mis diwethaf, gydag Awst a Mawrth yn dangos y cynnydd mwyaf ers y mis blaenorol. Cyrhaeddodd y ffigyrau uchafbwynt o 85,665 ym mis Gorffennaf 2022 - cynnydd o 76% o'i gymharu â'r ffigwr ar gyfer mis Mai 2021. Gostyngodd nifer y hysbysebion swyddi ym mis Awst a mis Medi i lawr i 71,685 ac roedd y ffigur hwn ar 74,052 o Hysbysebion Unigryw ym mis Hydref 2022, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad a gofnodwyd yn nifer y swyddi gwag yn y DU gan ONS.

Siart Bar 1: Hysbysebion Swyddi Ar-lein Misol yng Nghymru



Ffynhonnell: Lightcast™ Job Posting Analytics, Tachwedd 2022

Tabl 2: Hysbysebion Swyddi Ar-lein Misol yng Nghymru

Mis	Hysbysebion Swydd unigryw	% Newid misol	Dwyster Hysbysebion (Nifer yr hysbysebion fesul swydd wag unigryw)
Mai 2021	48,641	2.0	4.1
Mehefin 2021	51,550	6.0	4.1
Gorffennaf 2021	56,553	9.7	4.1
Awst 2021	68,782	21.6	4.1
Medi 2021	73,407	6.7	4.1
Hydref 2021	76,987	4.9	4.1
Tachwedd 2021	82,322	6.9	4.1
Rhagfyr 2021	77,242	-6.2	3.1
Ionawr 2022	67,241	-12.9	4.1
Chwefror 2022	71,340	6.1	3.1
Mawrth 2022	79,973	12.1	3.1
Ebrill 2022	83,574	4.5	2.1
Mai 2022	82,188	-1.7	3.1
Mehefin 2022	77,709	-5.4	3.1
Gorffennaf 2022	85,665	10.2	3.1
Awst 2022	72,309	-15.6	3.1
Medi 2022	71,685	-0.9	3.1
Hydref 2022	74,052	3.3	2.1

Ffynhonnell: Lightcast™ Job Posting Analytics, Tachwedd 2022

Mae'r Dwysedd Hysbysebu yn dangos cyfanswm y swyddi a hysbysebwyd ar gyfer pob swydd wag unigryw e.e. byddai dwyster o 2:1 ar gyfer Hydref 2022 yn golygu bod pob swydd newydd ym mis Hydref yn cael ei hysbysebu mewn 2 gyfrwng gwahanol. Byddai galwedigaeth benodol gyda dwyster hysbysebu uwch na'r cyfartaledd o 2:1 ar gyfer mis Hydref yn awgrymu bod cyflogwyr yn gwneud mwy o ymdrech i lenwi'r swydd wag honno.

3. Tueddiadau Recriwtio Galwedigaethau

Yr 20 galwedigaeth a hysbysebwyd yn y 30 diwrnod diweddaraf hyd at 11 Tachwedd 2022

Gweithwyr Gofal a Gofalwyr Cartref, a Nyrsys yw'r 2 grŵp galwedigaethol uchaf gyda'r cyfanswm uchaf o swyddi ar-lein, er bod yna ostyngiadau bach wedi bod yn y ddau ers y mis blaenorol. Roedd yna gynnydd sylweddol o 9% a 13% yn y drefn honno ar gyfer Rhaglenyddion a Gweithwyr Proffesiynol Datblygu Meddalwedd a Dadansyddion Busnes TG, Penseiri a Dylunyddion Systemau, gan symud Rhaglenyddion a Gweithwyr Proffesiynol Datblygu Meddalwedd i'r 3 galwedigaeth uchaf gyda'r cyfanswm uchaf o hysbysebion ar-lein yn y 30 diwrnod diweddaraf o hysbysebu, yng Nghymru:

Siart Bar 3: Yr 20 galwedigaeth a hysbysebwyd yn y 30 diwrnod diweddaraf hyd at 11 Tachwedd 2022 yng Nghymru



Ffynhonnell: Lightcast™ Job Posting Analytics, Tachwedd 2022

Tabl 4: Yr 20 galwedigaeth a hysbysebwyd yn y 30 diwrnod diweddaraf hyd at 11 Tachwedd 2022

Galwedigaeth (SOC) (Galwedigaethau gyda >50 o hysbysebion yn y 30 diwrnod diweddaraf)	30 diwrnod diweddaraf [1] Hysbysebion Unigryw	Cyf. Dwysedd Hysbysebu (Mawrth-Ebrill 2022)	% y Newid mewn Hysbysebion Swyddi'r 30 Diwrnod Diweddaraf
Gweithwyr Gofal a Gofalwyr Cartref	3,868	4 : 1	-3.3%
Nyrsys	2,939	6 : 1	-3.8%
Rhaglenyddion a Gweithwyr Proffesiynol Datblygu Meddalwedd	2,355	2 : 1	9.0%
Galwedigaethau Cysylltiedig â Gwerthu	2,012	2 : 1	-10.9%
Galwedigaethau Gwasanaeth Cwsmeriaid	1,986	3 : 1	-11.4%
Galwedigaethau Gweinyddol Eraill	1,940	2 : 1	-14.6%
Cymhorthiaid Addysgu	1,849	2 : 1	4.5%
Cymhorthiaid Cegin ac Arlwyo	1,675	3 : 1	-18.0%
Cymhorthiaid Gwerthu a Manwerthu	1,256	3 : 1	-10.0%
Glanhawyr a Glanhawyr Domestig	1,191	2 : 1	-15.7%
Swyddi Storio Elfennol	1,122	3 : 1	-7.4%
Pobl syn Gyrru Fan	1,101	3 : 1	0.2%
Cymhorthiaid Nyrsio a Chymhorthiaid	977	5 : 1	-1.5%
Dadansyddion Busnes TG, Penseiri a Dylunyddion Systemau	974	2 : 1	13.0%
Rheolyddion a Pherchnogion mewn Gwasanaethau Eraill	953	2 : 1	-4.9%
Technegyddion Peirianneg	943	2 : 1	-1.7%
Technegyddion Gwyddoniaeth, Peirianneg a Chynhyrchu	869	2 : 1	-5.7%
Swyddogion Adnoddau Dynol a Chysylltiadau Diwydiannol	862	2 : 1	-3.9%
Athrawon a Gweithwyr Addysg Proffesiynol Eraill	772	2 : 1	-12.2%
Cyfarwyddion Marchnata a Gwerthu	757	2 : 1	2.3%

Ffynhonnell: Lightcast™ Job Posting Analytics, Tachwedd 2022

[1] 30 diwrnod diweddaraf: Hydref 13 – Tachwedd 11, 2022

Galwedigaethau â galw cynyddol yn y 30 diwrnod diweddaraf hyd at 11 Tachwedd.

Mae tabl 5 isod yn dangos bod rhai galwedigaethau wedi gweld cynnydd yn y galw o dros 35% yn y 30 diwrnod diweddaraf, gan gynnwys Nyrsys Milfeddygol, Clerigion ac Actorion, Diddanwyr a Chyflwynwyr. Fodd bynnag, gan fod nifer yr hysbysebion yn llai na 100 ar gyfer yr holl alwedigaethau hyn, nid yw'r cynnydd hwn yn arbennig o nodedig. Efallai y bydd cynnydd mwy sylweddol yn cael ei nodi ar gyfer Dadansoddion Busnes TG, Penseiri a Dylunyddion Systemau sydd wedi codi 13% ers y mis diwethaf i 974 o hysbysebion swyddi. Mae'r duedd hon yn unol â'r Erthygl LMI Swyddi a sgiliau TG yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022.
Ni ellir ystyried y cynnydd a'r gostyngiadau yn y galw ar draws y cyfnod o 30 diwrnod fel tuedd oherwydd y cyfnod byr; mae'n giplun o'r cyfnod hwnnw a gall adlewyrchu tueddiadau sector tymhorol a gwahaniaethu ar draws ardaloedd.

Tabl 5: **% y cynnydd mewn Hysbysebion Swyddi Unigryw yng Nghymru yn y 30 diwrnod diweddaraf i'r 11 Tachwedd**

Galwedigaeth (SOC) (Galwedigaethau gyda >50 o hysbysebion yn y 30 diwrnod diweddaraf)	Y 30 diwrnod diweddaraf [1] Hysbysebion Unigryw	Dwyster Hysbysebion	% y Newid mewn Hysbysebion Swyddi'r 30 Diwrnod Diweddaraf [2]
Nyrsys Milfeddygol	78	2 : 1	105.3%
Clerigion	69	2 : 1	38.0%
Actorion, diddanwyr a chyflwynwyr	69	2 : 1	35.3%
Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Gwasanaethau Cyhoeddus	55	2 : 1	27.9%
Milfeddygon	118	1 : 1	25.5%
Optegyddion Offthalmig	140	1 : 1	25.0%
Gwarchodwyr plant a Galwedigaethau Cysylltiedig	100	3 : 1	25.0%
Cyfarwyddion Technoleg Gwybodaeth a Thelathrebu	111	2 : 1	24.7%
Gweithwyr Cyfreithiol Proffesiynol	53	2 : 1	23.3%
Peiriannyddion Telathrebu	97	2 : 1	22.8%
Awduron, Ysgrifenwyr a Chyfieithwyr	181	1 : 1	19.9%
Pobl sy'n Gyrru Bysiau a Choetsys	159	2 : 1	18.7%
Cymhorthiaid Cefnogi Addysg	266	2 : 1	18.2%
Gweithwyr Post, Didolwyr Post, Negeswyr a Chludwyr	53	3 : 1	17.8%
Rheolyddion Cyfrifon Ariannol	74	2 : 1	17.5%
Rheolyddion Cyfrifon Gwerthu a Rheolyddion Datblygu Busnes	229	2 : 1	15.1%
Actiwarïaid, Economegyddion ac Ystadegyddion	63	2 : 1	14.5%
Pobl Eraill sy'n Gyrru a Phobl sy'n Gweithredu Trafnidiaeth	96	2 : 1	14.3%
Dadansoddion Busnes TG, Penseiri a Dylunyddion Systemau	974	2 : 1	13.0%
Peiriannyddion Cynhyrchu a Phroses	139	2 : 1	13.0%

Ffynhonnell: Lightcast™ Job Posting Analytics, Tachwedd 2022
[1] 30 diwrnod diweddaraf: Hydref 13 – Tachwedd 11, 2022
[2] Newid canrannol Hysbysebion Unigryw y 30 Diwrnod Diweddaraf (gan gymharu â Medi 13 - Hydref 12 i Hydref 13 - Tachwedd 11, 2022)

Cofiwch nad yw % uchel o newid o reidrwydd yn golygu'r nifer uchaf o swyddi gwag. Mae ffigurau hysbysebion swyddi yn amrywio o ddydd i ddydd, ac mae ffynonellau data'n amrywio.

Galwedigaethau â llai o alw yn ystod y 30 diwrnod diweddaraf hyd at 11 Tachwedd

Yn ystod y 30 diwrnod diweddaraf hyd at 11 Tachwedd, y galwedigaethau â'r % uchaf o ostyngiadau mewn hysbysebion swyddi (fel y nodir yn Nhabl 6 isod), oedd Hyfforddyddion Gyrru, Nyrsys Deintyddol a Syrfëwyr Siartredig. O ran canrannau, gwelwyd y cwymp mwyaf mewn Hyfforddyddion Gyrru'r o dros 57% ond mewn termau rhifiadol dim ond gostyngiad o tua 68 i lawr i 51 o hysbysebion swyddi fyddai hyn. Adroddwyd yn eang yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf bod galw mawr am hyfforddyddion gyrru ac aseswyr prawf ledled y DU.
Gostyngodd Cymhorthiaid Cegin ac Arlwyo ganran yn llai o 18% o'r cyfnod blaenorol o 30 diwrnod ond roedd hyn yn ostyngiad rhifiadol mwy sylweddol o tua 368 i lawr i 1,675 o hysbysebion swyddi unigryw. Efallai bod hyn i'w briodoli i dueddiadau tymhorol, efallai y gwelwn amrywiadau tebyg yn y Bwletin nesaf ar ôl cyfnod recriwtio'r Nadolig.

Tabl 6: % Gostyngiad mewn hysbysebion Swyddi Unigryw yng Nghymru yn y 30 diwrnod diweddaraf hyd at 11 Tachwedd

Galwedigaeth (SOC) (Galwedigaethau gyda >50 o hysbysebion yn y 30 diwrnod diweddaraf)	Y 30 diwrnod diweddaraf [1] Hysbysebion Unigryw	Dwyster Hysbysebion	30 diwrnod diweddaraf: Hysbysebion Unigryw % Newid [2]
Hyfforddyddion Gyrru	51	1 : 1	-57.1%
Nyrsys Deintyddol	53	5 : 1	-29.3%
Syrfëwyr Siartredig	97	2 : 1	-27.1%
Rheolyddion a Chyfarwyddwyr mewn Storio a Warysau	57	2 : 1	-24.0%
Galwedigaethau Gwasanaethau Elfennol Eraill	108	2 : 1	-23.9%
Dylunyddion Graffig	73	2 : 1	-23.2%
Pobl sy'n Gyrru Cerbydau Nwyddau Mawr	432	3 : 1	-23.1%
Hyfforddyddion Ffitrwydd	145	4 : 1	-22.0%
Clercod Banc a Swyddfa'r Post	135	2 : 1	-21.5%
Pobl sy'n gweithreu Offer a Pheiriannau	150	2 : 1	-21.5%
Rheolyddion Cynhyrchu a Chyfarwyddion mewn Gweithgynhyrchu	354	2 : 1	-19.5%
Staff mewn Bar	264	3 : 1	-19.5%
Cymhorthiaid Cegin ac Arlwyo	1,675	3 : 1	-18.0%
Pobl Proffesiynol Busnes ac Ymchwil Cysylltiedig	110	2 : 1	-17.9%
Newyddiaduryddion, Golygyddion Papurau Newydd a Golygyddion Cyfnodol	77	2 : 1	-17.2%
Clercod a Chymhorthiaid Rheoli Stoc	218	2 : 1	-17.1%
Galwedigaethau Adeiladu Elfennol	409	2 : 1	-17.0%
Rheolyddion a Chyfarwyddion Gwasanaethau Cymdeithasol	78	3 : 1	-17.0%

Pobl Proffesiynol yr Amgylchedd	54	2 : 1	-16.9%
Cymhorthiaid Chwaraeon a Hamdden	119	2 : 1	-16.8%

Ffynhonnell: Lightcast™ Job Posting Analytics, Tachwedd 2022
[1] 30 diwrnod diweddaraf: Hydref 13 – Tachwedd 11, 2022
[2] Y newid canrannol yn ystod y 30 diwrnod diweddaraf mewn hysbysebion gweithredol unigryw (gan gymharu Medi 13 – Hydref 12 i Hydref 13 – Tachwedd 11, 2022

Data Marchnad Lafur gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yng Nghymru

Yn ôl ciplun sampl gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, mae'r graff isod yn dangos bod 31,897 o swyddi wedi'u hennill a 3,076 o swyddi wedi'u colli rhwng Mai a Medi 2022 ledled Cymru gyfan.

Siart Bar 7: Colledion ac Enillion Swyddi ledled Cymru



Ffynhonnell: Data Marchnad Lafur gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Hydref 2022

Tabl 8: Colledion ac Enillion Swyddi ledled Cymru Mai – Medi 2022

Ardal	Colledion	Enillion
Cymru	-3,076	31,897
De-ddwyrain Cymru	-1,045	18,030
Gogledd a Chanolbarth Cymru	-951	11,795
De Orllewin Cymru	-1,080	2,072

Ffynhonnell: Data Marchnad Lafur gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Hydref 2022

Enillion a cholledion swyddi yn y diwydiant mis Mai i fis Medi 2022

Mae gwybodaeth bellach o giplun yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos bod gwahaniaethau mewn enillion neu golledion swyddi rhwng rhanbarthau Cymru ac ar draws y diwydiannau. Yn Ne-ddwyrain Cymru cafwyd enillion mawr mewn Lletygarwch a Rheoli Digwyddiadau bob mis yn ogystal â Pheirianneg a Gweithgynhyrchu, a Gofal Iechyd ym mis Awst a mis Medi. Yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru gwelwyd enillion mewn Peirianneg a Chynhyrchu, ac mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweinyddiaeth bob mis, gwelwyd colledion mewn Peirianneg a Gweithgynhyrchu a gynyddodd ym Awst a Medi.

4. Diswyddiadau

Mae lefelau diswyddo yng Nghymru wedi amrywio islaw lefelau cyn-bandemig ers y tarfu a achoswyd yn ystod 2020-2021. Mae'r datganiadau ystadegol ers y cyfnod Chwefror – Ebrill 2022 yn cynnwys data ar gyfer y DU yn gyffredinol, ond mae'r data ar gyfer Cymru wedi'i atal ar sail datgelu. Mae atal data yn digwydd pan fydd niferoedd yn disgyn o dan 3. Adlewyrchir yr hepgoriad data hwn gan y bylchau yng Ngraff 9 isod, sy'n dangos cymhariaeth o'r cyfraddau diswyddo yng Nghymru a'r DU. Roedd diswyddiadau yn y DU wedi bod yn gostwng yn raddol ers Gorffennaf - Medi 2021 ond mae wedi dechrau cynyddu ers gostwng i 1.8% rhwng Mawrth - Mai 2022.

Ledled y DU, mae diwydiannau gan gynnwys Gweithgynhyrchu, Iechyd Dynol a gweithgareddau gwaith cymdeithasol a Gwasanaethau Gwybodaeth a Chyfathrebu wedi gwneud llai o ddiswyddiadau rhwng Mehefin ac Awst a Gorffennaf i Fedi 2022, na'r 3 adroddiad blaenorol ar gyfer mis Mawrth hyd at fis Gorffennaf; fodd bynnag, mae gwasanaethau llety a bwyd, Cyfanwerthu, manwerthu a thrwsio cerbydau modur, Gweithgareddau Ariannol a Gweithgareddau Proffesiynol oll wedi dangos cynnydd dros yr un cyfnod.

Graff 9: Cymharu'r Cyfraddau Diswyddo yng Nghymru a'r DU



Ffynhonnell: ONS, Tachwedd 2022

Noder: Mae'r ffigyrau diswyddiadau ar gyfer Cymru yn seiliedig ar faint sampl bach ac felly maent yn gyfnewidiol. Gall hyn arwain at amcangyfrifon llai manwl gywir, y dylid eu defnyddio gyda gofal. Mae bylchau yn digwydd yng nghyfres amser Cymru pan fydd amcangyfrif yn cael ei atal oherwydd meintiau sampl bach.

Tabl 10: Diswyddiadau yng Nghymru a'r DU

Mis	% Diswyddiadau'r DU	% Diswyddiadau Cymru	Lefel Diswyddiadau Cymru
Awst-Hyd 2019	4.3	4.2	5,301
Medi-Tach 2019	4.2	2.1	2,681
Hyd-Rhag 2019	3.9	2.5	3,133
Tach-Ion 2020	3.8	3.9	4,906
Rhag-Chwe 2020	3.8	3.5	4,413
Ion-Maw 2020	3.8	3.9	4,967
Chwe-Ebr 2020	3.8	3.4	4,405
Maw-Mai 2020	4.1	4.2	5,282
Ebr - Meh 2020	4.8	4.6	5,863
Mai-Gorf 2020	5.6	4.9	6,191
Meh-Awst 2020	8.3	6.6	8,474
Gorf-Medi 2020	11.4	11.1	14,347
Awst-Hyd 2020	13.6	10.9	14,052
Medi-Tach 2020	14.4	13.2	16,708
Hyd-Rhag 2020	12.9	7	8,724
Tach-Ion 2021	11.5	7.8	9,782
Rhag-Chwe 2021	7.5	4.3	5,355
Ion-Maw 2021	5.4	3.1	3,957
Chwe-Ebr 2021	3.9	1.4	1,722
Maw-Mai 2021	3.8	3.1	3,895
Ebr - Meh 2021	3.6	3.5	4,464
Mai-Gorf 2021	3.4	2.9	3,747
Meh-Awst 2021	3.6	1.7	2,177
Gorf-Medi 2021	3.7	1.8	2,292
Awst-Hyd 2021	3.5	*	*
Medi-Tach 2021	2.8	3.5	4,466
Hyd-Rhag 2021	2.6	3.6	4,490
Tach-Ion 2022	2.4	4.5	5,719
Rhag-Chwe 2022	2.7	3.3	4,113
Ion-Maw 2022	2.5	2.9	3,617
Chwe-Ebr 2022	2.0	*	*
Maw-Mai 2022	1.8	*	*
Ebr - Meh 2022	1.9	*	*
Mai-Gorf 2022	2.3	*	*
Meh-Awst 2022	2.4	*	*

Mis	% Diswyddiadau'r DU	% Diswyddiadau Cymru	Lefel Diswyddiadau Cymru
Gorf- Medi 2022	2.7	*	*

* Mae'r amcangyfrif wedi'i atal ar sail datgelu.

Ffynhonnell: ONS, Tachwedd 2022

5. Diweithdra ac Anweithgarwch Economaidd

Mae'r graff isod yn dangos y cymariaethau diweithdra rhwng Cymru a'r DU cyn, yn ystod ac ar ôl y pandemig.
Mae'r gyfradd ddiweithdra yn y DU wedi dangos gostyngiad cyson ers cyrraedd uchafbwynt o 5.2% rhwng Hydref a Rhagfyr 2020. Mae'r ganran o bobl ddi-waith yng Nghymru wedi dangos tuedd debyg ond gyda chyfnodau o lanw a thrai, yn arbennig cynyddodd y gyfradd i'r un lefel â'r DU ar 3.8% yn y cyfnodau Mawrth - Mai 22 ac Ebrill - Mehefin 22. Yn yr adroddiad ystadegol diweddaraf ar gyfer Gorffennaf – Medi 2022 roedd y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn uwch na'r gyfradd yn y DU yn gyffredinol, sef 3.7% neu 55,000 o unigolion.
Yn ôl Briff diweddaraf y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth, mae'r DU yn un o ddim ond pum economi ddatblygedig lle mae cyflogaeth yn parhau i fod yn is nawr nag yr oedd cyn y pandemig.

Graff 11: Cymharu'r lefelau diweithdra yng Nghymru a'r DU



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2022

Tabl 12: Lefelau cyflogaeth a diweithdra yng Nghymru a'r DU

Mis	Lefel Cyflogaeth, Cymru	Lefel Diweithdra, Cymru	Lefel Cyflogaeth, y DU	Lefel Diweithdra, y DU	Cyfradd diweithdra [1]Cymru	Cyfradd diweithdra [1]DU
Awst-Hyd 19	1,479,000	55,000	32,801,000	1,281,000	3.6%	3.8%
Medi - Tach 19	1,494,000	46,000	32,901,000	1,306,000	3.0%	3.8%
Hyd - Rhag 19	1,481,000	45,000	32,934,000	1,290,000	2.9%	3.8%
Tach - Ion 20	1,479,000	51,000	32,985,000	1,343,000	3.3%	3.9%
Rhag - Chwe 20	1,469,000	56,000	33,073,000	1,364,000	3.7%	4.0%
Ion - Maw 20	1,474,000	49,000	32,984,000	1,376,000	3.2%	4.0%
Chwe - Ebr 20	1,477,000	47,000	32,779,000	1,384,000	3.1%	4.1%
Maw - Mai 20	1,488,000	42,000	32,678,000	1,403,000	2.7%	4.1%
Ebr - Meh 20	1,484,000	42,000	32,560,000	1,397,000	2.8%	4.1%
Mai - Gorf 20	1,469,000	49,000	32,549,000	1,476,000	3.2%	4.3%
Meh - Awst 20	1,444,000	58,000	32,461,000	1,549,000	3.9%	4.6%
Gorf - Medi 20	1,441,000	69,000	32,333,000	1,659,000	4.6%	4.9%
Awst - Hyd 20	1,452,000	70,000	32,309,000	1,721,000	4.6%	5.1%
Medi - Tach 20	1,456,000	72,000	32,306,000	1,747,000	4.7%	5.1%
Hyd - Rhag 20	1,456,000	69,000	32,159,000	1,773,000	4.5%	5.2%
Tach - Ion 21	1,449,000	70,000	32,126,000	1,742,000	4.6%	5.1%
Rhag - Chwe 21	1,468,000	76,000	32,168,000	1,715,000	4.9%	5.1%
Ion - Maw 21	1,475,000	69,000	32,165,000	1,673,000	4.5%	4.9%
Chwe - Ebr 21	1,476,000	65,000	32,174,000	1,655,000	4.2%	4.9%
Maw - Mai 21	1,467,000	59,000	32,191,000	1,645,000	3.9%	4.9%
Ebr - Meh 21	1,477,000	63,000	32,303,000	1,600,000	4.1%	4.7%
Mai - Gorf 21	1,494,000	66,000	32,409,000	1,556,000	4.2%	4.6%
Meh - Awst 21	1,491,000	63,000	32,489,000	1,511,000	4.1%	4.4%
Gorf - Medi 21	1,486,000	58,000	32,592,000	1,452,000	3.8%	4.3%
Awst - Hyd 21	1,477,000	56,000	32,583,000	1,423,000	3.7%	4.2%
Medi - Tach 21	1,477,000	51,000	32,561,000	1,382,000	3.3%	4.1%
Hyd - Rhag 21	1,479,000	47,000	32,567,000	1,373,000	3.1%	4.0%
Tach - Ion 22	1,475,000	46,000	32,530,000	1,346,000	3.0%	4.0%
Rhag - Chwe 22	1,470,000	45,000	32,566,000	1,298,000	3.0%	3.8%
Ion - Maw 22	1,470,000	45,000	32,632,000	1,259,000	3.0%	3.7%
Chwe - Ebr 22	1,469,000	53,000	32,707,000	1,300,000	3.5%	3.8%
Maw - Mai 22	1,472,000	58,000	32,863,000	1,285,000	3.8%	3.8%
Ebr - Meh 22	1,463,000	58,000	32,792,000	1,294,000	3.8%	3.8%
Mai - Gorf 22	1,451,000	49,000	32,746,000	1,224,000	3.3%	3.6%

Mis	Lefel Cyflogaeth, Cymru	Lefel Diweithdra, Cymru	Lefel Cyflogaeth, y DU	Lefel Diweithdra, y DU	Cyfradd diweithdra [1]Cymru	Cyfradd diweithdra [1]DU
Meh - Awst 22	1,447,000	50,000	32,754,000	1,188,000	3.3%	3.5%
Gorf – Medi 22	1,448,000	55,000	32,739,000	1,224,000	3.7%	3.6%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2022

[1] Canran y boblogaeth Economaidd weithgar dros 16 oed

Noder: Er mwyn caniatáu ar gyfer tueddiadau gwahanol yn ystod y pandemig, mae ymatebion yr LFS wedi'u hailbwysoli ar 14 Mehefin 2022. Mae'r ailbwysoli wedi'i gymhwyso o fis Ionawr i fis Mawrth 2020 ymlaen ac mae'n rhoi amcangyfrifon gwell o gyfraddau a lefelau. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn erthygl y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru

Mae Economaidd Anweithgar yn diffinio pobl nad ydynt mewn cyflogaeth, nad ydynt wedi bod yn chwilio am waith o fewn y 4 wythnos diwethaf a/neu na allant ddechrau gweithio o fewn y pythefnos nesaf.
Yn ôl Nomis mae'r ganran fwyaf o'r economaidd anweithgar yn cynnwys y rhai sy'n dioddef o salwch hirdymor, y rhai sy'n gofalu am y teulu neu'r cartref a phobl sydd wedi ymddeol a myfyrwyr. Mae'r graff isod yn dangos y lefelau economaidd anweithgar yng Nghymru a'r DU, ac eithrio myfyrwyr, rhwng Mehefin 2019 a Mehefin 2022. Mae'r gyfradd yn y DU yn gyffredinol wedi cynyddu i 17.6% yn y datganiad ystadegol diweddaraf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022. Mae'r gyfradd yng Nghymru wedi amrywio mwy dros y 3 blynedd diwethaf, ac wedi aros yn uwch na'r DU yn gyffredinol, er gwaethaf y ffaith ei bod wedi gostwng i 19.8% yn y datganiad ystadegol diweddaraf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022.

Graff 13: Cymharu Anweithagrwch Economaidd yng Nghymru a'r DU



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Hydref 2022

Tabl 14: Gweithgarwch Economaidd ac Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru a'r DU

Diwedd Blwyddyn	Economaidd Egnïol, Cymru	Economaidd Anweithgar, Cymru (ac eithrio myfyrwyr)	Economaidd weithgar, y DU	Economaidd Anweithgar, DU (ac eithrio myfyrwyr)	Economaidd Anweithgar %, Cymru[1] (ac eithrio myfyrwyr)	Economaidd Anweithgar %, DU[1] (ac eithrio myfyrwyr)
30 Meh 2019	1,461,600	343,900	32,503,800	6,558,600	19.8%	17.4%
30 Meh 2020	1,461,800	343,800	32,650,700	6,582,400	19.7%	17.4%
30 Meh 2021	1,437,100	353,700	32,374,700	6,540,600	20.5%	17.4%
30 Meh 2022	1,458,800	342,200	32,487,200	6,660,500	19.8%	17.6%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Hydref 2022

[1] Canran y boblogaeth sydd dros 16 oed

Gellir adolygu poblogaeth Economaidd Anweithgar Cymru o ran y rhesymau dros anweithgarwch economaidd. Y gyfran fwyaf yw'r rhai â salwch hirdymor, ac yna'r boblogaeth myfyrwyr. Amlygodd y ffynhonnell ddata hon hefyd, o'r hanner miliwn o bobl economaidd anweithgar yng Nghymru, fod 17.9% neu 80,594 o bobl eisiau cael swydd.

Y cynnydd mwyaf mewn anweithgarwch economaidd o ran rheswm yng Nghymru, a ledled y DU, yw'r niferoedd cynyddol sy'n dioddef o salwch hirdymor. Yng Nghymru mae'r ffigur hwn wedi codi o 128,000 ers Ionawr 2020 i 147,000 ym mis Mehefin 2022, cynnydd o 12.9%.

Ledled y DU, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth yn adrodd yn eu Briff diweddaraf bod anweithgarwch economaidd oherwydd salwch hirdymor wedi codi uwchlaw 2.5 miliwn am y tro cyntaf erioed; mae cyflogaeth yn gostwng ar gyfer pobl anabl a gweithwyr hŷn; mae data newydd ar lif y farchnad lafur yn awgrymu bod mwy o bobl yn symud i anweithgarwch economaidd ac yn treulio mwy o amser allan o waith sy'n atal twf.

Siart Cylch 15: Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru fesul Rheswm



Tabl 16: Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru fesul Rheswm

Anweithgarwch economaidd fesul rheswm	Economaidd Anweithgar, Lefel, Cymru	Economaidd Anweithgar, % Cymru
Cyfanswm 16-64 oed	449,096	100%
Salwch tymor hir	146,576	32.6%
Myfyrwyr	114,941	25.6%
Gofalu am y teulu / cartref	80,616	18.0%
Wedi ymddeol	56,352	12.5%
Arall	39,651	8.8%
Salwch dros dro	8,194	1.8%
Gweithwyr Di-Gymhelliant	2,766	0.6%

Ffynhonnell: ONS, Hydref 2022

6. Diweithdra ymysg Ieuenctid a Phobl Ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)

Fel y gwelir yn y graff isod mae canran y rhai 16 i 18 oed yr adroddwyd eu bod yn NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) wedi gostwng yn y flwyddyn ddiwethaf, gyda 6.3% o bobl ifanc 16-18 oed yng Nghymru (neu gyfanswm o 6,500).) rhwng Ebrill a Mehefin 2022, o'i gymharu â 10.3% neu 10,900 o unigolion rhwng Ebrill a Mehefin 2021.

Nid yw'r grŵp NEET 19 i 24 oed wedi amrywio llawer dros y 12 mis diwethaf ac mae'n llawer uwch. Rhwng Ebrill a Mehefin 2021 y gyfradd NEET oedd 15.3%, neu 35,300 o unigolion, o'i gymharu â 15.1% neu 35,200 o unigolion rhwng Ebrill a Mehefin 2022.
Ledled Cymru, mae hyn yn cynrychioli cyfanswm o 41,700 o bobl ifanc NEET yng Nghymru rhwng 16 a 24 oed ar ddiwedd mis Mehefin 2022. Mae hyn yn nifer sylweddol o bobl ifanc nad ydynt yn cyfrannu at economi Cymru.

Dylid nodi bod yr amcangyfrifon ar gyfer y grŵp oedran 16 i 18 ar gyfer y cyfnod Ebrill - Mehefin 2022 yn seiliedig ar ymatebion bach ac felly cânt eu categoreiddio fel rhai ansawdd cyfyngedig.

Mae arolwg blynyddol Gyrfa Cymru o ymadawyr ysgol a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth bellach am gyrchfannau disgyblion, a Phobl Ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) Prif Ganfyddiadau – Hynt disgyblion o ysgolion yng Nghymru yn 2021 | Gyrfa Cymru gyfer 2021.

Graff 17: Cymhariaeth o Bobl Ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn y grwpiau oedran 16-18 a 19-24



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Hydref 2022

Tabl 18: Pobl Ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn y grwpiau oedran 16-18 a 19-24

Cyfnod	16 - 18 oed %	19 - 24 oed %	16 - 18 oed	19 - 24 oed
Ion-Maw 2019	8.2%	16.2%	8,400	39,100
Ebr-Meh 2019	8.4%	15.0%	8,500	35,800
Meh-Med2019	8.6%	15.4%	8,600	36,500
Hyd-Rhag 2019	10.2%	15.6%	10,100	36,700
Ion-Maw 2020	9.1%	15.1%	9,100	36,000
Ebr-Meh 2020	8.3%	15.7%	8,200	37,200
Meh-Medi 2020	8.2%	14.5%	8,200	34,600
Hyd-Rhag 2020	7.8%	14.7%	7,900	34,800
Ion-Maw 2021	9.3%	15.7%	9,600	36,300
Ebr-Meh 2021	10.3%	15.3%	10,900	35,300
Meh-Medi 2021	9.1%	15.1%	9,500	34,800
Hyd-Rhag 2021	9.7%	14.7%	9,900	33,900
Ion-Maw 2022	7.6%	14.5%	7,900	33,900
Ebr-Meh 2022	6.3%	15.1%	6,500	35,200

1. ***Mae amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) ar gyfer Ionawr-Mawrth 2020 i Hydref-Rhagfyr 2021 wedi'u diwygio yn dilyn ailbwysoli'r APS.***

2. ***Mae amcangyfrifon ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed yn Ebrill - Mehefin 2022 yn seiliedig ar tua 25 - 40 o ymatebion ac yn cael eu categoreiddio fel ansawdd cyfyngedig.***

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Hydref 2022

7. Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Map rhyngweithiol o RSPs

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol De Orllewin Cymru

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Prifddinas Caerdydd

Ers mis Mehefin 2020, mae'r pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP) yng Nghymru wedi cynhyrchu adroddiadau marchnad lafur lleol ar effaith Covid-19 ar eu heconomïau rhanbarthol. Roedd yr adroddiadau'n casglu ystadegau economaidd allweddol yn ogystal â'r effaith ar draws sectorau rhanbarthol yn seiliedig ar ddeallusrwydd meddal a gasglwyd o weithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr.
Prif ddiben adroddiadau'r RSP oedd darparu gwybodaeth a oedd yn galluogi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddeall effaith COVID-19 ar gyflogaeth a sgiliau yn y rhanbarth a darparu ymatebion a darpariaeth ranbarthol. Cyhoeddwyd adroddiadau'r 6ed RSP a'r olaf yn y gyfres ym mis Ebrill eleni ac roeddent yn rhoi crynodeb o effaith covid ar draws y rhanbarthau sydd ar gael ar eu gwefannau.

Bydd y 4 RSP yng Nghymru yn cyhoeddi eu Cynlluniau Sgiliau Rhanbarthol 3 blynedd wedi'u diweddaru dros yr ychydig fisoedd nesaf, lle bydd dadansoddiad manwl o ddata a thueddiadau economaidd rhanbarthol a lleol gyda ffocws penodol ar sgiliau diwydiant a sector ar gael. Mae Cynlluniau Sgiliau'r RSP yn allweddol i lywio dull strategol Llywodraeth Cymru o ddarparu cyflogaeth a sgiliau.

Negeseuon allweddol gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol:

Mae cynnwrf ac ansicrwydd ar draws yr economi ranbarthol oherwydd Brexit, y pandemig coronafirws, a'r rhyfel mwy diweddar yn Wcráin. Mae busnesau ar draws y rhanbarth yn wynebu set gymhleth o heriau. Sgiliau yn aml yw'r brif flaenoriaeth i fusnesau ac mae cael gweithlu cymwys ac abl yn egwyddor sylfaenol i gyflogwyr. Ni fu erioed mor bwysig creu amodau i arfogi pobl heddiw â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer yfory.
Mae pwyslais ar sgiliau trosglwyddadwy craidd wedi bod yn un o ganlyniadau allweddol y pandemig. Bydd yr angen i gael pobl sy'n ystwyth, gwydn, creadigol ac yn gallu datrys problemau yn ofyniad ar draws pob sector yn y dyfodol.
Mae angen dwysau camau gweithredu a chynnydd cydweithredol os ydym am ddatblygu sgiliau gwyrdd ar gyfer swyddi'r dyfodol.
Yn yr un modd, dylid canolbwyntio ar sgiliau digidol holl bwysig sydd wedi dod yn bwysicach fyth oherwydd y pandemig. Mae creu gweithlu sydd â'r sgiliau digidol, y gallu a'r hyder i ragori yn y gweithle ac mewn bywyd bob dydd bellach yn fwy arwyddocaol nag erioed.
Mae busnesau bellach yn ceisio uwchsgilio eu gweithlu i lenwi eu prinder llafur. Mae prentisiaethau, dysgu seiliedig ar waith a rhaglenni uwchsgilio/ailsgilio eraill wedi dod yn hollbwysig i lawer o fusnesau er mwyn pwysleisio gwerth eu staff. Mae buddsoddi mewn staff presennol trwy uwchsgilio a hyfforddi neu ailhyfforddi wedi galluogi aelodau'r tîm i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi arwain at gadw staff yn well.

8. Cymorth, gwybodaeth ac ystadegau

Mae **Cymru'n Gweithio** a **Gyrfa Cymru** yn cynnig gwybodaeth a chymorth gyda chynlluniau gan gynnwys
Gwarant i Bobl Ifanc
Cyllid ReAct
Cyfrifon Dysgu Personol

Gallant hefyd gefnogi gyda
Opsiynau ar ôl Colli Swydd
Prentisiaethau
Chwilio am Gwrs
Cael Swydd
Cyflogwyr yn recriwtio nawr
Bwletin Swydd
Cwis Paru Gyrfa

Mae'r **Adran Gwaith a Phensiynau** yn cynnig gwasanaethau gan gynnwys
Find A Job a Help Swyddi i geiswyr gwaith
Plan For Jobs sy'n cynnig arweiniad a chymorth i gyflogwyr a cheiswyr gwaith.

Mae Busnes Cymru yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i fusnesau, gan gynnwys
Skills Gateway for Business

YSTADEGAU'R FARCHNAD LAFUR
Trosolwg y farchnad lafur: November 2022 | LLYW.CYMRU
Diweddariad mis Tachwedd 2022 ar y Farchnad Lafur (senedd.cymru)
Business insights and impact on the UK economy - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

Nodiadau rhybuddiol ar y defnydd o ffynonellau data yn yr amgylchedd presennol

Mae ffigurau hysbysebu swyddi yn un o'r setiau data cyntaf i roi syniad ar unwaith o'r effaith ar y farchnad lafur ond dim ond arwydd yw hyn:

Dim ond cyfran o'r holl swyddi gwag y maent yn eu hadlewyrchu, ac eithrio recriwtio anffurfiol.

Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r niferoedd absoliwt gan eu bod ond yn rhoi ciplun o'r darlun recriwtio cyfan, ac mae'r dull casglu'n cael ei wella'n barhaus ond gall y tueddiadau cyffredinol a welir roi syniad i ni o sut yr effeithir ar gyfleoedd swyddi yng Nghymru.

Mae rhagamcanion cyflogaeth yr ydym fel arfer yn eu defnyddio gan ein cyflenwyr data fel LightcastTM yn 'amcangyfrifon o dueddiadau'r dyfodol yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol a'r presennol' felly lle defnyddir rhagamcanion, gallant fod yn seiliedig ar ddata tueddiadau cyn-argyfwng, hyd nes y bydd rhagolygon economaidd ar gael sy'n modelu senarios rhagolygon o effaith digwyddiadau cyfredol.

Rydym yn parhau i groesawu adborth ar berthnasedd y data a'r negeseuon allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y bwletin hwn. Anfonwch eich adborth i gwybodaeth@gyrfacymru.llyw.cymru.

9. Nodwedd: Y Diwydiant Adeiladu yng Nghymru

Dolen i 'Y Diwydiant Adeiladu yng Nghymru'